CYNLLUN DISGOWNT TEULUOL

(Pob Ysgol)

Disgownt 'Teuluol' o 50c y plentyn y pryd / diwrnod ar gyfer teuluoedd â 3 neu fwy o ddisgyblion sy'n mynychu ysgol gynradd neu uwchradd yn Sir Benfro. Bydd yn arbed ol leiaf £1.50 y dydd i chi (dibynnu ar nifer y plant yn y cynllun).

TELERAU AC AMODAU

1. Mae'r cynllun hwn ar gael i deuluoedd sydd â 3 neu fwy o ddisgyblion sy'n byw yn yr un cyfeiriad, sy'n mynychu ysgol gynradd neu uwchradd yn Sir Benfro.
2. Mae'n rhaid mai cyfeiriad cartref y plentyn yw'r cyfeiriad sydd wedi'i gofrestru gyda'r ysgol / ysgolion.
3. Bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais i ymuno â'r cynllun.
4. Maer terfyn gwariant lleiaf yn berthnasol syn cyfateb i lwfans pryd bwyd am ddim.
5. Mae'r cynllun yn berthnasol i brydau rydych chi'n talu amdanynt yn unig. Nid yw disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn.
6. Rhaid i bob plentyn brynu pryd ar yr un diwrnod.
7. Ni fydd unrhyw deulu sydd mewn dyled o £40 neu fwy y plentyn yn gymwys mwyach ar gyfer y cynllun disgownt a chodir y pris llawn arnynt.
8. Trwy ymuno â'r cynllun hwn, nid oes hawl gennych ymuno â chynllun y Cytundeb Prydau Ysgol Blynyddol sy'n cynnig disgownt o 10%.